
# Ysgol Henry Richard




# Athro / Athrawes Celfyddydau Mynegiannol




# Swydd Athro/Athrawes Celfyddydau Mynegiannol

## Hysbyseb

Mae Corff Llywodraethol Ysgol Henry Richard yn awyddus i benodi i ddechrau ar Fedi 1af, 2024, athro/athrawes Celfyddydau Mynegiannol gydag arbenigedd mewn Cerddoriaeth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymarferydd ardderchog o fewn y dosbarth gyda disgwyliadau uchel ac ymrwymiad i godi safonau. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus addysgu cwrs Cerddoriaeth TGAU fel rhan o'r swydd. Athro/athrawes effeithiol, ysbrydoledig a brwdfrydig, gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i ddatgloi potensial pob un disgybl yn academaidd ac yn allgyrsiol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno gyda thîm brwdfrydig o staff sy'n ymroi'n llwyr i sicrhau llwyddiant pob un disgybl. Mae'r gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn angenrheidiol a bydd athrawon newydd gymhwyso yn cael eu hystyried.

## Mwy o wybodaeth?

Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Phennaeth Ysgol Henry Richard, Mr Dorian Pugh, ar pughd22@henryrichard.ceredigion.sch.uk neu ar 01974298231.

## Datganiad Diogelu

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae rhai rolau o fewn ein sefydliad yn gofyn am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i asesu addasrwydd ymgeiswyr. Bydd y rôl hon yn gofyn am wiriad DBS Uwch. Sylwch na fydd presenoldeb euogfarnau blaenorol o reidrwydd yn anghymhwyso ymgeisydd rhag ystyriaeth ar gyfer y swydd hon. Rydym yn asesu pob ymgeisydd fesul achos, ac yn ystyried natur a pherthnasedd unrhyw euogfarnau mewn perthynas â chyfrifoldebau'r rôl. Ein nod yw creu amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol lle caiff pob unigolyn ei drin yn deg a chyda pharch. Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am y broses hon, mae croeso i chi gysylltu â ni am eglurhad. Mae eich preifatrwydd a'ch urddas yn hollbwysig i ni drwy gydol y broses recriwtio.

## Proses Ymgeisio

- Dyddiad cau - Dydd Sul, Mai 12fed, 2024
- Dyddiad cyfweliad - Dydd Gwener, Mai 17eg, 2024.
- Dyddiad dechrau'r swydd - Medi 1af, 2024

# Swydd Disgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Athro / Athrawes |
| **Cyflog** | Prif raddfa athrawon |
| **Rheolwr Llinell:** | Aelod o'r Uwch Dîm Arwain |
| **Yn gyfrifol am:** | Cynorthwywyr Addysgu o fewn y dosbarth |
| **Math o gytundeb:** | Rhan Amser (0.8) |
| **Hyd y cytundeb:** | Parhaol |

## Diben y swydd

Ymgymryd â dyletswyddau Athro yn unol â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a deddfwriaeth addysgol gyfredol arall.

Dylech:

- Bod yn athro/athrawes dosbarth rhagorol gyda disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion, yn academaidd ac yn gymdeithasol.
- Deall y pwysigrwydd o'r cylch Marcio, Cynllunio ac Addysgu er mwyn sicrhau profiadau gwerthfawr i bob dysgwr.
- Bod â gwybodaeth am y cwricwlwm newydd i Gymru a gallu ysbrydoli a chymell plant sy'n gyffrous am eu dysgu.
- Bod yn barod i chwarae rhan weithredol ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys clybiau a chymryd cyfrifoldeb am feysydd cwricwlwm.
- Bod â dealltwriaeth ragorol o T.G.Ch. fel offeryn addysgu a dysgu.
- Bod yn gwbl ymrwymedig i godi safonau mewn dysgu.
- Bod yn weithiwr proffesiynol hyblyg, trefnus a brwdfrydig iawn.
- Gallu gweithio mewn partneriaeth â thîm o gydweithwyr cefnogol.
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol â rhan ddeiliaid yr ysgol.



# Swydd Disgrifiad

## Prif dyletswyddau a chyfrioldebau

### Addysgeg

- Sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr yn gyson drwy fireinio addysgu i gwrdd â gofynion bob unigolyn
- Sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr trwy hyrwyddo addysgu fel bod dysgwyr yn medru cymhwyso gwybodaeth yn effeithiol.
- Sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr trwy ddylanwadu ar ddysgwyr er mwyn iddynt feithrin ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.
- Sefydlu a chynnal amgylchedd dysgu sy'n hyrwyddo arferion ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol sy'n bodloni'r pedwar diben ac sy'n galluogi dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain.
- Defnyddio ystod o dechnegau asesu i fonitro a chofnodi cynnydd disgyblion ac i lywio cynllunio er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a nodwyd.
- Gwneud defnydd effeithiol o wahaniaethu i ddiwallu anghenion pob dysgwr.
- Gwneud defnydd effeithiol o ddata i gynhyrchu adborth, cofnodion ac adroddiadau amserol a chywir i hwyluso dealltwriaeth ddyfnach o ddysgu a gwella'r profiad dysgu.
- Cynnwys rhieni, gofalwyr, partneriaid eraill a rhan ddeiliaid wrth ddatblygu dysgwyr o ran pedwar diben y cwricwlwm.
- Ymgorffori, datblygu ac ymestyn y pedwar diben wrth gynllunio, paratoi ac addysgu i yrru profiad dysgwyr a chyflawni deilliannau cadarnhaol i bob dysgwr.
- Defnyddio addysgeg a disgyblaethau perthnasol o fewn ac ar draws cynnwys pwnc, meysydd dysgu a themâu trawsgwricwlaidd wrth gynllunio a chyflwyno.
- Defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a phrofiadau dysgu cyfunol.
- Ymestyn profiad diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol dysgwyr drwy ddefnyddio cyd-destunau dilys, bywyd go iawn ar gyfer dysgu.
- Gweithio gyda dysgwyr i olrhain cynnydd mewn dysgu a nodi'r camau nesaf mewn ffordd sy'n cymhwyso dysgu disgybledig ar draws y pedwar diben.
- Datblygu a defnyddio themâu trawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i feysydd dysgu er mwyn meithrin cysylltiadau a galluogi myfyrio effeithiol ar ddysgu.
- Cyfathrebu a darparu lefelau priodol o her a disgwyliadau ar gyfer yr ystod o alluoedd a nodweddion sydd ymhlith dysgwyr er mwyn cymell dysgwyr i ymestyn eu hunain a manteisio ar sgiliau blaenorol wrth geisio datblygu sgiliau newydd.
- Gwrando ar farn dysgwyr a'u hystyried er mwyn eu cynnwys a'u hannog fel cyfranogwyr gweithredol yn eu dysgu eu hunain.
- Annog y dysgwyr i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a chymryd rhan weithredol yn y gwaith o reoli eu hagenda ddysgu eu hunain gyda gweithgarwch a gaiff ei ddechrau a'i benderfynu ganddynt hwy eu hunain.
- Hyrwyddo a sicrhau hunan-gymhelliant a hunan-gyfeiriad ymhlith dysgwyr er mwyn iddynt ymestyn eu hunain a bod yn wydn wrth ddatrys problemau a heriau yn eu dysgu.
- Rhoi amser i ddysgwyr fyfyrio a gwerthuso eu dysgu a'u hymddygiad eu hunain. Yn deillio o hyn ceir ffocws naturiol ar yr ymddygiad sydd ei angen yn y dyfodol i ymestyn fel dysgwr.
- Hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng profiadau a chanlyniadau dysgu o ansawdd uchel a gwell dysgu a llês.

# Swydd Disgrifiad

## Prif dyletswyddau a chyfrioldebau

### Cydweithredu

- Gweithio'n gynhyrchiol gyda'r holl bartneriaid mewn dysgu er mwyn ymestyn effeithiolrwydd proffesiynol.
- Mynd ati'n rhagweithiol i geisio ac ymgysylltu â chyngor a chymorth o amrywiaeth o ffynonellau ffurfiol ac anffurfiol a gweithredu hyn i wella deilliannau i ddysgwyr.
- Gweithio gyda chydweithwyr mewn agweddau cyffredin ar drefnu dysgu ac mewn dulliau arloesol i wella profiad dysgwyr.
- Cefnogi datblygiad eraill drwy gyfraniad at fentrau ysgol gyfan, cymryd rhan mewn rhaglenni sy'n ymestyn arbenigedd a datblygu perthynas o ansawdd uchel gyda chydweithwyr er mwyn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr.
- Gweithredu ar gyngor eraill er mwyn sicrhau gwell perfformiad a chyflawni gwell deilliannau i ddysgwyr.

### Dysgu Proffesiynol

- Cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu proffesiynol eich hun drwy geisio ymestyn gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn barhaus a chroesawu her a chefnogaeth i ddatblygu addysgeg i'r radd uchaf.
- Ymgymryd â darllen ehangach i wella dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n ymwneud ag asesu, addysgeg, datblygiad plant a glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac ymarfer o ddydd i ddydd.
- Ymgysylltu a gweithredu o fewn rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol boed ar lefel ysgol, rhanbarthol, cenedlaethol neu rhyngwladol, sy'n canolbwyntio ar bwnc, proses neu gyfnod oedran priodol.
- Defnyddiwch y Pasbort Dysgu Proffesiynol i gofnodi dysgu proffesiynol a myfyrio ar arfer a'i wella trwy roi technegau a dulliau newydd neu ddiwygiedig ar waith o fewn cyd-destun y pedwar diben.

### Arloesi

- Defnyddio rhagolygon arloesol i ddatblygu technegau a dulliau gweithredu i wella addysgeg a chanlyniadau.
- Cefnogi datblygiad eraill drwy fodelu technegau addysgu a defnyddio profiad i gynnig cyngor ac arbenigedd.
- Defnyddio barn broffesiynol a dadansoddi beirniadol i ddatblygu technegau newydd a llunio ymarfer i ddatblygu dysgu.
- Gwerthuso, dadansoddi a rhannu effaith newidiadau mewn ymarfer.

### Arweinyddiaeth

- Ymarfer arweinyddiaeth drwy bob agwedd ar ymarfer proffesiynol i gefnogi ymdrechion pobl eraill ar draws yr ysgol a thu hwnt i gyflawni uchelgeisiau addysg Cymru.
- Dangos ymrwymiad personol a phroffesiynol i egwyddorion tegwch a manteisio i'r eithaf ar botensial pob dysgwr.
- Arfer cyfrifoldeb corfforaethol drwy sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â pholisïau ac egwyddorion yr ysgol, gan gynnwys diogelu, iechyd a diogelwch a chydraddoldeb.
- Dangos ymrwymiad i arwain dysgu drwy ymgysylltu â phrofiadau cydweithredol yn yr ysgol a chyd-destunau eraill. Defnyddir rhinweddau arferion proffesiynol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion eraill.
- Cefnogi rolau arwain ffurfiol drwy geisio dealltwriaeth o rôl, cyfrifoldebau a chyfraniad pobl eraill ar draws yr ysgol tuag at ethos yr ysgol a chyflawni gweledigaeth yr ysgol.

# Swydd Disgrifiad

## Dyletswyddau penodol eraill

- Tra bod pob ymdrech wedi'i wneud i egluro'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, efallai na fydd pob tasg unigol a wnaed yn cael eu nodi.
- Bydd yn disgwyl i weithwyr cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan uwch arweinwyr i ymgymryd â gwaith ar lefel debyg nas pennir yn y disgrifiad swydd.
- Mae disgwyl i weithwyr fod yn gwrtais tuag at weithwyr eraill a darparu amgylchedd croesawgar i ymwelwyr a phobl sy'n galw dros y ffôn.
- Bydd yr ysgol yn ymdrechu i wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r swydd a'r amgylchedd gwaith i alluogi mynediad i gyfleoedd cyflogaeth i ymgeiswyr anabl.
- Mae'r disgrifiad swydd yma yn gyfredol ar hyn o bryd ar y dyddiad a ddangosir, ond drwy ymgynghori â chi, fe ellir ei newid gan y Pennaeth neu, yn ystod trafodaethau adolygiadau rheoli Perfformiad, gan eich Rheolwr Llinell i adlewyrchu neu i ragweld newidiadau yn y swydd sy'n gymesur â graddfa a theitl y swydd. Bydd angen trafod y swydd disgrifiad yn flynyddol a'i lofnodi.

# Manyleb Person

## Sgiliau a chymwysterau

- Statws Athro Cymwysedig
- Cymhwyster / Gradd berthnasol
- Y gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.

## Sgiliau ymarferol/personol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd

- Mae'r gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.
- Yn frwdfrydig dros addysg disgyblion ac yn cyfrannu'n llawn i fywyd a gwaith yr ysgol.
- Ymroddiad llwyr i roi'r profiadau gorau i ddisgyblion – eu dysgu, eu llês, a'u diogelwch.
- Yn onest ac yn ddibynadwy, ac yn parchu cyfrinachedd.
- Yn hyderus a brwdfrydig.
- Yn meddu ar fedrau rhyngbersonol da.
- Yn gallu cyd-weithio mewn tîm.
- Ymarferydd ystafell ddosbarth ardderchog.
- Yn gallu hyrwyddo ymddygiad da.
- Yn ymchwilio i ymarfer gorau.
- Yn defnyddio llais y dysgwyr i ddatblygu Addysgu a Dysgu.

## Profiad sy'n ofynnol ar gyfrer y swydd

- Profiad o addysgu'n llwyddiannus i sicrhau profiadau positif i ddisgyblion.
- Ymroddiad i godi safonau addysgu a dysgu

## Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd

- Cymryd rhan yn rhaglen dysgu proffesiynol yr ysgol.
- Ymrwymo'n llawn i gylch rheoli perfformiad er mwyn gosod targedau datblygu'n broffesiynol.

## Sgiliau/cymwysterau dymunol

- Yn meddu ar fedrau Cymhwysedd Digidol cryf iawn (Microsoft 365, HWB) er mwyn cynnal profiadau digidol o'r radd uchaf.
- Y gallu i rwydweithio gydag ysgolion eraill wrth ddatblygu Cwricwlwm i Gymru.

YSGOL HENRY RICHARD

Mewn llafur mae elw